

Y Teulu

Nid oes bendith na chanmoliaeth i neb sydd â chywilydd o'i deulu.

Dihareb Iddewig

Teulu hapus ydi nefoedd ar y ddaear.

EMYNAU

Dyhead a geir yn yr emyn hwn am ddiddymu'r ffiniau er mwyn i ni gael cyhoeddi neges y deyrnas:

O diddyma'r ffiniau, Arglwydd,
sy'n gwahanu plant y llawr,
a rhyddha ni drwy dy Ysbryd
i gyhoeddi'r deyrnas fawr:
dyro inni weled heddiw,
er terfysgoedd dynol-ryw,
groes yr Iesu'n unig obaith –
dan ei chysgod gad in fyw.

Geoffrey G. Davies (*Caneuon Ffydd*: 618)

Ti yw Arglwydd yr eglwys a phen teulu'r ffydd:

Am dy Eglwys, Iôr bendigaid,
seiniwn heddiw fawl ynghyd;
ti a'i rhoddaist inni'n gartref
rhag y drwg sydd yn y byd:
deled eto bobloedd daear
drwy ei phyrth yn dorf ddi-ri',
yn ei chanol yr wyt beunydd
a hyd byth nid ysgog hi.

J. Edward Williams (*Caneuon Ffydd*: 619)

Galwad a geir yn yr emyn hwn i aelodau'r teulu dorchi eu llewys a bwrw iddi i waith yr Arglwydd:

Na foed cydweithwyr Duw
 byth yn eu gwaith yn drist
 wrth ddwyn y meini byw
 i'w doddi'n nhemel Crist:
 llawenydd sydd, llawenydd fydd
 i bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.

Elfed (*Caneuon Ffydd*: 608)

Pan fo aelodau'r teulu yn diffygio boed i fflam y ffydd ein deffro a'n herio:

Yn oriau tywyll ein hamheuon blin
 a'r wawr ymhell,
 ynghanol cors ein hanghrediniaeth ddu
 mewn unig gell,
 O deued atom chwa o Galfarî
 i ennyn fflam ein ffydd, a'n harwain ni.

Aled Lloyd Davies (*Caneuon Ffydd*: 623)

Clyma ni â chwlwm na ellir ei ddatod a hynny er mwyn argyhoeddi'r byd:

Clyma ni'n un, O Dduw,
 clyma ni'n un, Dad,
 â chwlwm na ellir ei ddatod:
 clyma ni'n un, O Dduw,
 clyma ni'n un, Dad,
 clyma ni'n un ynot ti.

Bob Gillman *cyf.* Catrin Alun (*Caneuon Ffydd*: 626)

Rho i ni'r weledigaeth o weld yr eglwys yn un teulu yn dy enw di:

Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn,
 clodforwn di, Arglwydd, fod gwyrth yn dy drefn:

dihunaist ni'r meirwon, a'n codi drwy ffydd,
a throi ein hŵynebau at degwch y dydd.

Molwn di, molwn di'n un teulu ynghyd,
molwn di, molwn di, a'n cân dros y byd;
cydweithiwn, cydgerddwn, cydfolwn gan fyw
i roi iti'r cyfan, ein Harglwydd a'n Duw.

John Gwilym Jones (*Caneuon Ffydd*: 627)

GWEDDIAU

Diolchwn am ein bod wedi cael ein dwyn i fyny mewn uned deuluol:

Yn dy Fab, Iesu, a wybu'n llawn beth oedd bywyd teulu ar aelwyd yn Nasareth, y mae i ninnau Frawd sy'n cyfrif pawb a gred ynddo'n frodyr a chwirydd. Ac yng Nghrist, achubwr a gobaith y ddynoliaeth, y gwneir ni'n un, yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw. Diolchwn i ti am y drefn sydd wedi'n gosod i fyw gyda'n gilydd; am gwmni ar daith bywyd; am ein geni i deuluoedd, ac am y rhai a ddaeth â ni i'r byd; am rieni a pherthnasau i'n magu a'n meithrin; am gyfraniad pob plentyn ar aelwyd; am fywyd cartref, ac am ddysgu cyd-fyw; am brofi cariad a gofal, ac am ddisgyblaeth rasol; am gyfranogi yn llawenydd teulu, a rhannu cyfrifoldeb o'i fewn; am bob ymwybod o dderbyn a rhoddi, cymryd a chyfrannu. Amen.

John Rice Rowlands

Yn fwy na dim diolchwn am yr Eglwys a theulu Duw:

Uwechlaw popeth, diolchwn i ti am gymdeithas Eglwys Iesu Grist, ac am ein bod ynddi yn profi beth yw bod yn 'ddynoliaeth newydd', yn 'deulu Duw'. Diolchwn am berthynas â'n gilydd ynddi, am gariad ac undod ac ymwybod o gyfoeth tystiolaeth pawb, am gael ynddi ernes o fywyd dy deyrnas dragwyddol, a blaenbrawf o'rh fwriad ar gyfer y ddynoliaeth yn dy Fab. Gweddiwn am ddyfod holl deulu dyn yn deulu Duw trwy'r Ysbryd Glân. Gwrando ni yn ein deisyfiadau a'n mawrhad yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

John Rice Rowlands

Y teulu sy'n ein cynnal ar daith bywyd:

Ein Tad, diolchwn i ti
 am ein gosod o fewn ein teuluoedd
 a'n clymu ynghyd mewn tynerwch a chariad,
 yn wŷr a gwragedd a phlant,
 i feithrin a chynnal ein gilydd,
 i garu ac i gael ein caru,
 i ddysgu ymddiriedaeth a chyfrifoldeb,
 i gydlawenhau a chydalaru,
 drwy holl droeon taith ein bywyd. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Gweddiwn dros y teuluoedd sydd mewn angen:

Gweddiwn dros y rhai hynny o'th deulu
 sy'n byw mewn tlodi ac angen:
 y rhai sy'n newynu tra bo eraill ar ben eu digon;
 y rhai sy'n ddiwartref a diymgeledd;
 y rhai sydd ar ffo oddi wrth ormes a rhyfel;
 y rhai sydd mewn adfyd ac mewn anobaith. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Cyffeswn ein bod wedi anrheithio'r teulu a'i ddifwyno:

Cyffeswn inni fethu gwerthfawrogi'n gilydd fel y dylem
 na derbyn ein gilydd fel y dylem.
 Rydym wedi difwyno'n byd trwy greu gwahaniaethau;
 gwnaethom ein gwahaniaethau'n achos erledigaeth.
 Maddau inni a chynorthwya ni i ofalu am ein gilydd,
 i geisio cyfiawnder a heddwch i bawb,
 ac i barchu cyfanrwydd y greadigaeth hon
 yr ydym oll yn rhan ohoni,
 yn un teulu, yn edrych atat ti, ein Crëwr a'n Tad ni oll. Amen.

John Johansen-Berg

Mae drws yr aelwyd hon yn agored i'r teulu cyfan:

Ein Tad, diolchwn mai Duw'r Tad wyt Ti ac wrth law o hyd. Am hynny medrwn groesi rhiniog dy aelwyd ar unrhyw amser o'r dydd. 'Rwyt ti'n wahanol iawn i ni sy'n crwydro yma a thraw a heb fod ar gael pan wyt Ti'n galw heibio i ni. 'Rwyt ti bob amser adref ar dy aelwyd ysbrydol sy'n cwmpasu'r holl fyd, yn ymestyn o'r presennol i'r tragwyddol. Aelwyd â'i drws byth ar glo. 'Does dim rhaid i ni guro'r drws hyd yn oed cyn camu dros y trothwy. Mae'n agored led y pen ac ni ddichon neb ei gau. Amen.

Gareth Maelor

ADNODAU**Byddai Iesu wrth ei fodd yn ymweld â'r teulu ym Methania:**

Yr oedd rhyw ddyn o'r enw Lasarus yn wael. Yr oedd yn byw ym Methania, pentref Mair a'i chwaer Martha.

Ioan 11: 1

Fel un teulu yr oedd Iesu a'i rieni yn teithio i Jerwsalem ar gyfer gŵyl y Pasg:

Byddai ei rieni yn teithio i Jerwsalem bob blwyddyn ar gyfer gŵyl y Pasg.

Luc 2: 41

Bu'r aelwyd yn gynhaliath i Iesu gynyddu mewn doethineb, maintioli a ffafr gyda Duw a dynion:

Ac yr oedd Iesu yn cynyddu mewn doethineb, a maintioli, a ffafr gyda Duw a'r holl bobl.

Luc 2: 52

Yr hyn sy'n clymu teulu at ei gilydd yw gostyngyddrwydd, addfwynder a goddefgarwch mewn cariad:

Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad.

Effesiaid 4: 2

Cariad, yn union fel cariad Crist, yw'r glud sy'n dal y teulu wrth ei gilydd:

Byddwch, felly, yn efelychwyr Duw, fel plant annwyl iddo, gan fyw mewn cariad, yn union fel y carodd Crist ni, a'i roi ei hun trosom, yn offrwm ac aberth i Dduw, o arogl pêr.

Effesiaid 5: 1–2

Yr eglwys yw teulu Duw ar y ddaear:

Yr wyf yn gobeithio dod atat cyn hir, ond rhag ofn y caf fy rhwystro, yr wyf yn ysgrifennu'r llythyr hwn atat, er mwyn iti gael gwybod sut y mae ymddwyn yn nheulu Duw, sef eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd.

1 Timotheus 3: 14–15

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Dyhead y tad oedd derbyn y mab ieuengaf yn ôl ar yr aelwyd ac adfer y berthynas heb arlliw o edliw na gweld beiau'r gorffennol. Creu perthynas yw nod amgen pob teulu.

Mewn byd caled a didostur mae cyfeillgarwch a chynhesrwydd teulu Duw yn hanfodol. O fewn y teulu hwn mae gan bob aelod ei gyfrifoldeb. Nid theatr mo'r Eglwys, ond teulu, a phawb yn cyd-dynnu a hynny er mwyn dyfodol y teulu cyfan. 'Felly, nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyd-ddinasyddion â'r saint ac aelodau o deulu Duw.'

(Effesiaid 2: 19)

Y mae aelodau'r Eglwys yn aml yn disgwyl gwasanaeth ond yn gyndyn i wasanaethu.

Vance Havner

Nid cynulleidfa o bobl gyfiawn yw'r Eglwys Gristnogol. Cymdeithas o'r sawl sy'n gwybod nad ydynt yn dda ydyw.

Dwight E. Stevenson

Nid sefydliad yw'r Eglwys; bywyd newydd ydyw gyda Christ ac yng Nghrist, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân.

Serguis Belgakov